# ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMUNED

**Cynnig i Ad-drefnu Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood**

**Cau Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood ac agor ysgol newydd a gynhelir a fydd yn gweithredu ar y ddau safle presennol tra bod adeilad newydd yn cael ei gymeradwyo a'i adeiladu.**

# HAF 2026

## 1. Cyflwyniad

1.1. Mae Cyngor Sir y Fflint yn ceisio barn budd-ddeiliaid ynglŷn â chynnig i ad-drefnu Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood. Mae'r cynnig yn cynnwys cau'r ddwy ysgol bresennol a sefydlu ysgol gynradd gymunedol newydd a gynhelir yn gweithredu ar y ddau safle presennol i ddechrau, cyn datblygu adeilad ysgol unigol newydd ar dir yn Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood.

1.2. Mae dogfen ymgynghori ffurfiol yn nodi manylion llawn y cynnig ac yn darparu'r wybodaeth ofynnol ar gyfer ymgyngoreion er mwyn iddynt gyfrannu'n ystyrlon at y broses. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned wedi'i baratoi'n unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (2026).

1.3. Yr holl ddata, ffigyrau a gwybodaeth sydd yn y ddogfen hon yw'r rhai mwyaf cywir a diweddar sydd ar gael adeg ei chyhoeddi.

## 2. Pwrpas yr Asesiad

2.1. Pwrpas yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yw gwerthuso effaith bosibl y cynnig ar y gymuned leol, gan gynnwys cydlyniant cymunedol, mynediad at gyfleusterau, gwasanaethau lleol a lles.

2.2. Mae'r asesiad hwn yn ystyried effeithiau cadarnhaol a negyddol y cynnig, ochr yn ochr â goblygiadau byr dymor (Cam 1) a hirdymor (Cam 2).


2.3. Casglwyd gwybodaeth gan arweinwyr yr ysgolion ynglŷn â defnydd presennol o gyfleusterau'r ysgolion, cysylltiadau gyda sefydliadau cymunedol, a rôl pob ysgol o fewn ei hardal leol.

## 3. Proffil yr Ysgolion ac Ardal

### 3.1 Cyd-destun Lleol

Mae Saltney yn dref a ward etholiadol yn Sir y Fflint, wedi'i lleoli ger ffin Cymru a Lloegr a nepell o ddinas Caer. Yn ôl Cyfrifiad 2021 poblogaeth Saltney oedd 5,140.

Mae oddeutu 1.31 milltir rhwng y ddwy ysgol, gan wasanaethu'r un gymuned yn gyffredinol.




### 3.2 Trosolwg o'r Ysgolion

Mae'r ddwy ysgol yn rhoi addysg i blant rhwng 3 a 11 mlwydd oed trwy gyfrwng Saesneg.

- Ysgol Gynradd Saltney Ferry: 116 o ddisgyblion (Medi 2025)
- Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood: 147 o ddisgyblion (Medi 2025)

### 3.3 Dalgylch Disgyblion

- Ysgol Gynradd Saltney Ferry: Mae 64.17% yn mynychu eu hysgol agosaf; 35.83% yn teithio o'r tu allan i'r dalgylch
- Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood: Mae 78.81% yn mynychu eu hysgol agosaf; 21.19% yn teithio o'r tu allan i'r dalgylch

### 3.4 Teithio a Hygyrchedd

Mae mwyafrif y disgyblion yn y ddwy ysgol yn byw o fewn pellter cerdded:

- Ysgol Gynradd Saltney Ferry: 96.3% o fewn 2 filltir (cyfartaledd o 0.41 milltir)
- Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood: 98.6% o fewn 2 filltir (cyfartaledd o 0.63 milltir)

Nid oes unrhyw un o'r disgyblion yn gymwys ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol am ddim ar hyn o bryd.

O dan y cynnig, byddai disgyblion Saltney Ferry yn trosglwyddo i safle Saltney Wood, gan arwain at:

- Bellter cyfartalog: 1.27 milltir
- Amcangyfrif o amser cerdded mewn munudau: 25-30 munud

Mae llwybr cerdded diogel eisoes mewn lle, a bydd gwelliannau pellach o safbwynt isadeiledd teithio llesol yn destun ymchwil pellach.

3.5. Byddai'r ysgol unedig newydd arfaethedig yn cynrychioli'r ysgol amgen addas agosaf o'r un categori (cymunedol, nad yw'n ysgol ffydd, cyfrwng Saesneg). Yn ogystal â llwybrau cerdded, mae dewisiadau cludiant cyhoeddus ar gael, gan gynnwys gwasanaethau bws sy'n gweithredu oddeutu bob 20 munud gydag amser teithio oddeutu 5 munud. Fodd bynnag, disgwylir y bydd y mwyafrif o'r dysgwyr yn parhau i gerdded.

## 4. Proffiliau Cymunedol

### 4.1 Rôl yr Ysgolion yn y Gymuned

Mae'r ddwy ysgol yn cyfrannu at eu cymunedau lleol, gan ddarparu mynediad at ofal plant, gweithgareddau, a chyfleoedd ymgysylltu, er bod lefel y defnydd cymunedol uniongyrchol o eiddo'r ysgolion yn amrywio.

### 4.2 Ysgol Gynradd Saltney Ferry

Mae'r ysgol yn cefnogi:

- Clwb brecwast a chlybiau ar ôl ysgol.
- Darpariaeth cylch chwarae (yn cael ei gynnal yn allanol)
- Digwyddiadau cymunedol
- Cysylltiadau gyda sefydliadau lleol (eglwys, clybiau chwaraeon, prosiectau cadwraeth)

Defnyddir safle'r ysgol ar gyfer ystod gyfyngedig o weithgareddau'n ymwneud â'r gymuned, yn bennaf yn gysylltiedig â darpariaeth gofal plant a digwyddiadau achlysurol.

### 4.3 Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood

Mae'r ysgol yn cefnogi:

- Darpariaeth gofal plant estynedig
- Cylch Chwarae a Mwy a darpariaeth feithrin
- Gweithgareddau allgyrsiol
- Cysylltiadau gyda chanolfan gymunedol a chyfleusterau chwaraeon

O gymharu â Saltney Ferry, mae'r defnydd uniongyrchol o eiddo'r ysgol gan grwpiau cymunedol yn fwy cyfyngedig, er bod darpariaeth gofal plant ar y safle'n sefydledig ac yn parhau i fod yn nodwedd bwysig.

### 4.4 Darpariaeth gofal plant

Mae'r ddwy ysgol yn cynnal neu'n darparu darparwyr gofal plant, gan gynnwys:

- Darpariaeth grwp chwarae
- Clybiau brecwast
- Gofal plant estynedig

Mae'r gwasanaethau hyn yn bwysig i deuluoedd sy'n gweithio ac yn cynrychioli elfen allweddol o isadeiledd cymunedol.

## 5. Asesu'r effeithiau posibl

Mae'r cynnig wedi'i asesu yn erbyn ffactorau allweddol a nodwyd o fewn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2026). Mae'r effeithiau'n cael eu categoreiddio fel Cadarnhaol, Negyddol neu Gymysg (Negyddol gyda chamau lliniaru).

**5.1 Effaith ar Gydlyniant Cymunedol a Hunaniaeth**

**Effaith: Negyddol (camau lliniaru)**

Byddai cau Ysgol Gynradd Saltney Ferry'n arwain at golli ased cymunedol lleol yn y rhan honno o Saltney. Mae ysgolion yn aml yn gweithredu fel canolbwynt ar gyfer rhyngweithio cymunedol, hunaniaeth ac ymgysylltiad, yn enwedig ar gyfer teuluoedd gyda phlant ifanc.

Gallai hyn:

- Leihau mynediad lleol at wasanaethau sy'n gysylltiedig â'r gymuned
- Effeithio ar rwydweithiau cymdeithasol anffurfiol
- Gwanhau hunaniaeth cymdogaeth yn ardal Saltney Ferry

**Camau Lliniaru:**

- Cadw ysgol o fewn ardal Saltney
- Datblygu cyfleuster ysgol newydd a gwell wedi'i ddylunio i gefnogi defnydd cymunedol
- Cyfle i uno cymuned ehangach Saltney drwy un ysgol
- Datblygu strategaeth defnydd cymunedol ar gyfer yr ysgol newydd

**5.2 Effaith ar Fynediad at Gyfleusterau Cymunedol**

**Effaith: Negyddol (camau lliniaru)**

Byddai'r cynnig yn tynnu mynediad uniongyrchol at gyfleusterau yn yr ysgol yn ardal Saltney Ferry. Mae'r dystiolaeth bresennol yn nodi bod defnydd cymunedol rheolaidd o safle'r ysgol yn gyfyngedig, yn bennaf yn cynnwys digwyddiadau achlysurol wedi'u trefnu gan yr ysgol a darpariaeth gofal plant allanol.

Gallai colli'r safle leihau rhai cyfleoedd lleol ar gyfer ymgysylltiad cymunedol a mynediad at wasanaethau o fewn pellter cerdded ar gyfer preswylwyr, yn enwedig teuluoedd gyda phlant iau.

Camau Lliniaru:

- Parhau i ddarparu cyfleusterau sy'n hygyrch i'r gymuned ar safle'r ysgol newydd o fewn Saltney.
- Cynnwys gofodau hyblyg o fewn dyluniad yr ysgol newydd i gefnogi defnydd cymunedol a defnydd gan bartneriaid.
- Ymgysylltu gyda'r darparwyr gofal plant presennol i sicrhau parhad y ddarpariaeth
- Ystyriwyd y potensial i gadw neu symud y ddarpariaeth gymunedol yn ardal Saltney Ferry, a bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda phartneriaid i gefnogi'r ddarpariaeth ble bo modd.

**5.3 Effaith ar Wasanaethau Lleol Eraill**

**Effaith: Negyddol (camau lliniaru)**

Mae Ysgol Gynradd Saltney Ferry yn ffurfio rhan o ystod eithaf cyfyngedig o gyfleusterau cymunedol o fewn ardal leol Saltney Ferry. Er bod lefel defnydd cymunedol ffurfiol o safle'r ysgol yn gyfyngedig ar hyn o bryd, mae presenoldeb ysgol yn cyfrannu at weithgarwch lleol ac yn darparu lleoliad hygyrch ar gyfer gofal plant a digwyddiadau cymunedol achlysurol.

- Felly byddai cau'r ysgol yn arwain at golli cyfleuster cymunedol o fewn Saltney Ferry, a allai leihau cyfleoedd ar gyfer mynediad lleol at wasanaethau a

gweithgareddau o fewn pellter cerdded, yn enwedig ar gyfer teuluoedd gyda phlant iau. Ystyriwyd y potensial i gadw neu symud y ddarpariaeth gymunedol yn ardal Saltney Ferry, a bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda phartneriaid i gefnogi'r ddarpariaeth ble bo modd.

**Camau Lliniaru:**

- Parhau i ddarparu gofal plant a chyfleusterau sy'n hygyrch i'r gymuned ar safle'r ysgol newydd o fewn Saltney.
- Cynnwys gofodau hyblyg o fewn dyluniad yr ysgol newydd i gefnogi defnydd cymunedol a defnydd gan bartneriaid.
- Ystyriwyd y cyfleoedd i gadw neu symud y ddarpariaeth yn ardal Saltney Ferry, a bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda phartneriaid i gefnogi'r ddarpariaeth ble bo modd.
- Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, ystyriwyd defnydd posibl safle'r ysgol a'r adeiladau, yn cynnwys defnyddiau cymunedol neu gyd-leoli gwasanaethau. Byddai unrhyw gyfle o'r fath yn destun asesiad a phroses ar wahân o wneud penderfyniad.

**5.4 Effaith ar Boblogaeth Leol a Phatrymau Tai**

**Effaith: Niwtral i Fân Effaith Negyddol (camau lliniaru)**

Byddai'r cynnig yn arwain at gau safle un ysgol o fewn ardal Saltney Ferry, a allai leihau argaeledd ysgol leol o fewn pellter cerdded uniongyrchol ar gyfer rhai teuluoedd. Mae'n bosibl y gallai hyn ddylanwadu ar ganfyddiadau o'r ardal ar gyfer teuluoedd gyda phlant ifanc.

Ond, byddai ysgol gynradd ar gael o hyd yn ardal Saltney, a byddai mwyafrif y disgyblion yn gallu cael mynediad at addysg o fewn pellter rhesymol. Byddai argaeledd ysgol fodern gydag adnoddau da yn gwella atyniad cyffredinol darpariaeth addysgol yr ardal.

Nid oes tystiolaeth i awgrymu y byddai'r cynnig yn arwain at niferoedd helaeth o deuluoedd yn gadael yr ardal nac yn atal teuluoedd newydd rhag symud i Saltney.

Ar y cyfan, disgwylir na fydd llawer o effaith ar batrymau poblogaeth leol.

**Camau Lliniaru:**

- Parhad argaeledd darpariaeth ysgol leol o fewn Saltney
- Buddsoddi mewn cyfleusterau ysgol gwell
- Cynnal gwasanaethau gofal plant a chymunedol

**5.5 Effaith ar ddarpariaeth gofal plant**

**Effaith: Cymysg (Aflonyddwch byr dymor, cadarnhaol yn hirdymor)**

Mae posibilrwydd y bydd aflonyddwch yn ystod y cyfnod pontio, yn enwedig pan fo darpariaeth yn gysylltiedig â safleoedd ysgolion.

**Camau Lliniaru:**

- Ymrwymiad i gynnal ac ail ddarparu gwasanaethau gofal plant
- Cyfle i gynyddu capasiti a gwella cyfleusterau yn yr ysgol newydd
- Ymgysylltu gyda'r darparwyr gofal plant presennol i sicrhau parhad

**5.6 Cefnogi Ymgysylltiad gyda'r Ysgol Newydd a'i Chyfleusterau**

**Effaith: Cadarnhaol (gyda chefnogaeth wedi'i thargedu'n ofynnol)**

Bydd y cynnig yn uno disgyblion mewn un ysgol gyda mynediad at ystod ehangach o gyfleusterau, gweithgareddau allgyrsiol a chyfleoedd cyfoethogi.  Mae gan hyn y potensial i gynyddu cyfranogiad cyffredinol mewn gweithgareddau y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.

Ond, cydnabyddir efallai y bydd rhai dysgwyr a theuluoedd yn wynebu rhwystrau o safbwynt ymgysylltu, yn enwedig yn ystod y cyfnod pontio neu fe allai'r cynnydd mewn pellter teithio, costau neu fod yn gyfarwydd â'r lleoliad newydd effeithio ar gyfranogiad.

**Camau Lliniaru:**

- Datblygu cynllun pontio i gefnogi disgyblion a theuluoedd i ddod yn gyfarwydd ag amgylchedd yr ysgol newydd a'r hyn sydd ganddi i'w gynnig
- Parhau â darpariaeth gofal plant estynedig a gweithgareddau allgyrsiol i gefnogi teuluoedd sy'n gweithio
- Sicrhau mynediad teg at weithgareddau ar ôl ysgol, gan gynnwys ystyried costau ac argaeledd lleoedd
- Monitro lefelau cyfranogiad, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddysgwyr difreintiedig, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw grwpiau'n wynebu effeithiau anghyfartal
- Darparu gohebiaeth glir i rieni / gofalwyr ynglŷn â'r cyfleoedd sydd ar gael a sut i gael mynediad atynt

Drwy'r mesurau hyn, mae'r cynnig yn ceisio cynnal a gwella ymgysylltiad lle bo modd gyda gweithgareddau yn yr ysgol ar gyfer yr holl ddysgwyr.

**5.7 Effaith ar Fusnesau Lleol**

**Effaith:  Niwtral i Fân effaith negyddol**

Gall rhai busnesau lleol brofi mân ostyngiad yn nifer yr ymwelwyr yn sgil cau un safle ysgol.

**Camau Lliniaru:**

- Parhad presenoldeb ysgol o fewn Saltney.
- Gallai crynodiad gweithgarwch ar un safle wrthbwyso'r colledion

**5.8 Effaith ar Deithio Dysgwyr a Hygyrchedd**

**Effaith:  Negyddol i Gymysg (camau lliniaru)**

Bydd rhai disgyblion, yn enwedig y rhai sy'n mynychu Saltney Ferry ar hyn o bryd, yn profi pellter teithio hwy.

**Camau Lliniaru:**

- Bydd mwyafrif y disgyblion yn parhau i fod o fewn pellter cerdded
- Mae llwybrau cerdded diogel eisoes yn bodoli
- Gwelliannau posibl drwy fesurau Teithio Llesol
- Argaeledd cludiant cyhoeddus

Ni ddisgwylir i'r cynnig gael effaith sylweddol ar ddarpariaeth cludiant cyhoeddus ehangach o fewn yr ardal, gan fod gwasanaethau presennol yn gweithredu'n annibynnol o alw penodol ar gyfer ysgolion.

Mae manylion pellach yn y ddogfen Ymgynghori.

**5.9 Effaith ar Iechyd a Lles**

**Effaith:  Cymysg (Negyddol a Chadarnhaol)**

Byddai'r cynnydd yn arwain at bellteroedd cerdded pellach ar gyfer rhai dysgwyr, yn enwedig y rhai sy'n mynychu Ysgol Gynradd Saltney Ferry ar hyn o bryd.  Ar gyfer nifer fechan o ddisgyblion, gallai hyn leihau'r tebygolrwydd o gerdded neu feicio i'r ysgol yn rheolaidd, yn enwedig ar gyfer plant iau neu unigolion gydag anghenion ychwanegol.

Ond, byddai mwyafrif y disgyblion yn parhau i fod o fewn pellter cerdded rhesymol o safle arfaethedig yr ysgol newydd.  Byddai mynediad at lwybrau teithio diogel yn parhau, ynghyd â gwelliannau posibl i isadeiledd Teithio Llesol, a allai gynnal neu gynyddu lefelau cerdded a beicio.

Ni nodwyd unrhyw faterion diogelwch cymunedol sylweddol o ganlyniad i'r cynnig, gyda llwybrau cerdded diogel yn eu lle a ni ddisgwylir y bydd mwy o risgiau o safbwynt diogelwch ar y ffordd.

Ar y cyfan, er efallai y bydd mân effaith negyddol ar gyfer rhai dysgwyr, bydd cyfleoedd i hyrwyddo teithio llesol a'r buddion cysylltiol ar gyfer iechyd a lles.

**5.10 Yr Effaith ar y Gymraeg a diwylliant Cymru**

**Effaith:  Niwtral (gyda'r posibilrwydd o effaith gadarnhaol)**

Mae'r ddwy ysgol yn darparu addysg drwy gyfrwng Saesneg ar hyn o bryd, ac ni fyddai'r cynnig yn arwain at newid cyfrwng iaith y ddarpariaeth.

Mae Saltney ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr, ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y proffil ieithyddol lleol, lle bo lefelau defnydd y Gymraeg yn gymharol isel o gymharu â rhannau eraill o Gymru.  Mae'r ysgolion yn gwasanaethu cymunedau sydd â chysylltiadau agos gydag ardaloedd cyfagos yn Lloegr, ac mae cyfran o ddisgyblion yn teithio dros y ffin i dderbyn addysg.

Felly ni ddisgwylir i'r cynnig gael effaith negyddol ar ddarpariaeth Gymraeg yn y gymuned.

Ond, mae datblygu ysgol newydd yn cynnig cyfle i atgyfnerthu mesurau hyrwyddo'r Gymraeg drwy:

- Gynyddu gwelededd arwyddion a gohebiaeth ddwyieithog
- Gwella amgylcheddau dysgu Cymraeg
- Cyfleoedd i gefnogi'r Gymraeg drwy ddefnydd cymunedol o'r ysgol

Mae'r cynnig yn alinio â chyfrifoldebau ehangach y Cyngor i gefnogi uchelgeisiau Cymraeg 2050, drwy gynnal a gwella'r cyfleoedd i ddysgwyr ymgysylltu â'r Gymraeg. Gweler yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg i gael rhagor o fanylion.

**5.11 Effaith ar ysgolion cyfagos**

**Effaith:  Niwtral i Fân Effaith Negyddol (camau lliniaru)**

Ni ddisgwylir i'r cynnig hwn gael effaith sylweddol ar yr ysgolion cyfagos, gan y byddai gan yr ysgol newydd unedig ddigon o gapasiti i dderbyn yr holl ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood ar hyn o bryd.

Ond, cydnabyddir efallai y bydd rhai rhieni / gofalwyr yn dewis ceisio lleoliadau ysgol amgen o ganlyniad i'r cynnig.  Gallai sawl ffactor ddylanwadu ar hyn fel pellter teithio uwch ar gyfer rhai teuluoedd ac agosrwydd ysgolion dros y ffin rhwng Cymru a Lloegr.

O ystyried lleoliad Saltney ar y ffin, gall patrymau o ran dewis rhieni eisoes adlewyrchu symudiadau dros y ffin i ryw raddau.  Felly, ni ellir gwarantu na fydd rhywfaint o ddisgyblion yn symud.

Er hyn, disgwylir mai ychydig iawn fydd yr effaith ar yr ysgolion cyfagos gan:

- Fod digon o gapasiti o fewn yr ysgolion lleol ar gyfer unrhyw symudiadau
- Nid oes unrhyw ysgol leol yn dibynnu ar dderbyn nifer helaeth o ddisgyblion o'r naill ysgol.
- Disgwylir i fwyafrif y disgyblion drosglwyddo i'r ysgol newydd unedig.

**5.12 Effeithiau Tymor Byr yn erbyn rhai Hirdymor**

**Cam 1 (Gweithredu ar 2 safle):**

- Dim llawer o aflonyddwch o safbwynt mynediad cymunedol
- Parhad y ddarpariaeth yn cael ei gynnal gan fwyaf

**Cam 2 (Adeilad Newydd ar 1 Safle):**

- Mwy o effaith o ran hygyrchedd ar gyfer rhai preswylwyr
- Colli safle Saltney Ferry fel adnodd cymunedol
- Buddion hirdymor yn sgil cyfleusterau gwell

**6. Mesurau Lliniaru**

I fynd i'r afael â'r effaith a nodwyd, bydd y Cyngor:

- Yn datblygu Strategaeth Defnydd Cymunedol ar gyfer yr ysgol newydd
- Sicrhau parhad darpariaeth gofal plant, gan weithio gyda'r darparwyr presennol
- Dylunio'r ysgol newydd i gynnwys gofodau cymunedol hygyrch a hyblyg
- Archwilio cyfleoedd i wella'r defnydd o'r Gymraeg
- Cefnogi trefniadau pontio ar gyfer disgyblion, teuluoedd a grwpiau cymunedol
- Ystyried gwelliannau Teithio Llesol i wella hygyrchedd

**7. Casgliadau**

7.1. Byddai parhau â'r sefyllfa bresennol yn cynnal y trefniadau cymunedol presennol ond ni fyddai'n darparu'r gwelliannau addysgol a chyfleusterau gwell sy'n gysylltiedig â'r cynnig.

7.2. Byddai'r uno arfaethedig yn arwain at rai effeithiau negyddol, yn bennaf drwy golli safle'r ysgol yn Saltney Ferry a'r cynnydd mewn pellter teithio ar gyfer rhai teuluoedd.

7.3. Ond, ystyrir bod modd lliniaru'r effeithiau hyn, ac mae'r cynnig hefyd yn cynrychioli buddion hirdymor sylweddol gan gynnwys:

- Cyfleusterau addysgol gwell
- Gwella darpariaeth gofal plant
- Cyfleoedd ar gyfer cynyddu ymgysylltiad cymunedol
- Atgyfnerthu cymuned unedig Saltney

7.4. Ar y cyfan, er bod y cynnig yn cyflwyno heriau byr dymor a lleol, mae hefyd yn cynnig cyfle i ddarparu ysgol gyfoes, gynaliadwy ac sy'n canolbwyntio ar y gymuned er mwyn cefnogi anghenion dysgwyr a phreswylwyr yn y dyfodol.